
WALES

# Taith gylchol Brwydr Crogen

Chwiliwch am Borth y Meirw a safle Brwydr Crogen ar y daith gylchol hon o Gastell y Waun. Wrth gerdded ochr yn ochr â Chlawdd Offa byddwch yn dod ar draws 1,000 o flynyddoedd o hanes a gwrthdaro. Mae'r daith yn un ganiataol yn rhannol, ac felly o fis Ebrill i fis Medi yn unig y mae ar gael.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Maes parcio Castell y Waun, cod post LL14 5AF.

Map AO: OS Explorer 256 and Landranger 117

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Hawdd ond tir serth, gyda chymysgedd o lwybrau coetir a thraciau gwledig. Am ragor o wybodaeth ewch i'r adran Cyfleusterau.

Addas i gŵn: Croeso i gŵn ar dennyn.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 3 (km: 4.8)

Hyd: 2 awr - 3 awr

## Tirwedd

Tir hawdd ond serth, gyda chymysgedd o lwybrau coetir a thraciau gwledig. Cynghorir chi i wisgo esgidiau addas, mewn tywydd gwlyb yn enwedig. Llwybr caniataol yw hwn yn rhannol, ar agor o fis Ebrill i fis Medi yn unig.

## Cyfanswm y camau: 10

Man cychwyn: Maes parcio Castell y Waun. Cyfeirnod grid: SJ267384

1. Gadewch y maes parcio, ewch heibio'r Fferm a throi i'r dde pan gyrhaeddwch chi'r ffordd.
2. Ar ôl 100 llath, trowch i'r dde a dilyn y llwybr i lawr trwy'r coetir. Llwybr caniataol yw hwn, sydd ar agor o fis Ebrill i fis Medi.
3. Cerddwch i lawr y llwybr, ewch ymlaen dros y gamfa a dilyn y pyst marcio gwyn trwy'r cae. Arferid galw'r cae hwn yn 'the chase' a chredir ei fod yn rhan o'r hen barc ceirw. Mae darn sydd wedi cadw'n dda o Glawdd Offa ar y dde i chi. Ewch ymlaen i waelod y cae a dringo dros y gamfa.
4. Ewch ymlaen i lawr y llechwedd trwy'r coed i waelod y dyffryn. Fe welwch y dderwen anferth wrth Byrth y Meirw ar y chwith i chi. Credir bod y goeden yn dyddio'n ôl i'r 11eg ganrif, felly byddai'n sefyll yn 1165 yn ystod Brwydr Crogen. Mae gwybodaeth am Frwydr Crogen yn nes ymlaen ar y llwybr ar y chwith i chi. Daliwch i fynd i lawr y llwybr. Peidiwch â chroesi'r ffordd – yn hytrach trowch i'r dde ar ôl 10 llath (9m) ac yna dilyn y trac i'r dde.
5. Ar ôl 500 llath (457 m) trowch i'r dde yn y fforch ac anelu i fyny'r rhiw gyda'r coetir ar y dde i chi.
6. Ewch ymlaen i fyny'r rhiw, gan fynd heibio fferm, am 600 llath eto (548m).
7. Cymrwch y trac ar y dde trwy'r giât mochyn gydag arwydd i'r cae gan ddilyn y pyst marcio. Ewch ymlaen trwy'r caeau.
8. Ar ôl 250 llath (229m) ewch trwy'r giât mochyn metel ac anelu i'r chwith o'r tai. Ewch ymlaen trwy'r caeau. Mae golygfa hyfryd o Gastell y Waun ar y dde i chi.
9. Trowch i'r dde trwy'r giât mochyn nesaf a dilyn llwybr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r dde o'r tai.

10. Daliwch i ddilyn y llwybr trwy'r cae yn ôl i faes parcio Castell y Waun.

Man gorffen: Maes parcio Castell y Waun. Cyfeirnod grid: SJ267384